

# Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2014**

Amser: **09.03 – 10.48**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

<http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf>

---

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**William Powell (Cadeirydd)**  
**Russell George**  
**Bethan Jenkins**  
**Joyce Watson**

Tystion:

**Phil Hill, Deisebydd**  
**Richard Lee, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau**  
**Ambiwlans Cymru**  
**John Pockett, Confederation of Passenger Transport**  
**June Thomas, Ymgyrchwr Diffibrilwyr Leol**

Staff y Pwyllgor:

**Steve George (Clerc)**  
**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Clerc)**  
**Kath Thomas (Dirprwy Clerc)**  
**Jessica England (Swyddog)**  
**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)**

---

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## **2 Deisebau newydd**

### **2.1P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

### **2.2P-04-542 Cyfleoedd Ymarferol i Bobl Ifanc**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

### **2.3P-04-543 Dim cynnydd mewn ffioedd dysgu prifysgolion**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

### **2.4P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

### **2.5P-04-545 Gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

1. y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ofyn am eu barn am y ddeiseb; a
2. Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan i ofyn am ei farn am y ddeiseb ac i ofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â faint o bobl sydd wedi mynegi pryderon tebyg i'r cyngor yn uniongyrchol.

### **2.6P-04-546 Magu anifeiliaid dan amodau annaturiol**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn i'r deisebwr am eglurhad pellach ynghylch diben y ddeiseb.

### **2.7P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

1. ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ofyn am ei farn am y ddeiseb;
2. cysylltu â'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w hysbysu am y ddeiseb; a
3. rhoi rhagor o ystyriaeth i ymgymryd â gwaith ar y materion a godwyd.

## **2.8P-04-548 Ailgyflwyno dosbarthiadau Cymraeg ym Mhrifysgol Rennes.**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

## **2.9P-04-549 Gwnewch 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn anthem genedlaethol swyddogol yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

## **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

### **3.1P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gofyn iddo roi gwybod i'r Pwyllgor pryd y bydd yn ystyried y mater ac am ragor o wybodaeth ynghylch y rhesymau y bu oedi yn trafod y mater hwn.

### **3.2P-04-519 Diddymu Taliadau Comisiwn wrth werthu Cartrefi mewn Parciau**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau'n ymwneud â'r ymgynghoriadau ar Reoliadau sy'n codi o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ac i rannu pryderon y deisebydd gydag ef.

### **3.3P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn am y pwyntiau pellach a godwyd gan y deisebydd.

### **3.4P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru**

Wedi'i grwpio gyda deiseb P-04-408 – Gweler eitem 3.3

### **3.5P-04-456 Dementia – Gallai hyn ddigwydd i chi**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

1. ofyn i'r deisebydd roi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau ar ôl bod mewn cysylltiad â swyddogion y Gweinidog ac i ystyried y ddeiseb eto ar ôl cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd; ac
2. ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddo ystyried ehangu ymgynghoriadau tebyg yn y dyfodol i bobl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio trafod y busnes a ganlyn o dan Eitem 3 tan y cyfarfod nesaf ar 13 Mai.

### **3.6P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr**

### **3.7P-04-527 Ymgyrch i gael Cronfa Cyffuriau Canser Arbennig yng Nghymru**

### **3.8P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru**

### **3.9P-04-506 Pasys bws am ddim / teithio rhatach i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau, myfyrwyr a phobl o dan 18 oed**

### **3.10 P-04-510 Ymchwiliad Cyhoeddus i achos Breckman yn Sir Gaerfyrddin**

## **4 P-04-471 Deddfwriaeth Orfodol i sicrhau bod Diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus**

Bu'r tystion yn ateb cwestiynau'r Aelodau a dangoswyd i'r Pwyllgor sut i ddefnyddio diffibrilwyr.

## **Sesiwn dystiolaeth: Gwasanaethau Bysiau yng Nghymru**

### **5.1 P-04-475 Yn eisiau – Bysiau i Feirionnydd**

### **5.2 P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo**

### 5.3 P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru

Bu'r tyst yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.